Cenn@d

4 Tachwedd 2026

Rhifyn 297

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

Oedfa i ddiolch am wasanaeth y Coleg Gwyn

adroddiad gan D. Densil Morgan



O'r chwith i'r dde: Rhys Llwyd, Dylan Morgan, Ed Kaneen, Simeon Baker, Aled Davies, Iwan Davies, Densil Morgan, Ieuan Elfryn Jones, Irfon Roberts, Sian Elin Thomas, Elwyn Richards, Olaf Davies

'Chwerw felys' oedd yr ymadrodd a ddefnyddiwyd fwy nag unwaith yn y cyfarfod i ddiolch am dros ganrif a chwarter o wasanaeth y Coleg Gwyn, Coleg y Bedyddwyr Gogledd Cymru, ym Mangor, a gynhaliwyd yng Nghapel Emaus, brynhawn Gwener, 16 Hydref. Wedi ei sefydlu yn Llangollen yn 1862 i hyfforddi darpar weinidogion Bedyddiedig, symudodd y coleg i Fangor yn 1892 er mwyn elwa ar bresenoldeb y coleg prifysgol newydd a sefydlwyd yno wyth mlynedd ynghynt. Ac am 136 o flynyddoedd, nid yn unig bu'n sefydliad addysgol pwysig yn y ddinas ond yn elfen allweddol ym mywyd a thystiolaeth Bedyddwyr Cymru yn ogystal. Gyda'r cyhoeddiad yn 2024 y byddai'n uno â Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd, cafwyd cyfle i gofio am y cwbl a gafwyd er 1892 ac i ofyn am fendith Duw wrth i'r gwaith barhau.

Yn dilyn gair o groeso gan y Warden, y Parchg Ddr D. Densil Morgan, a chanu un o emynau Gwili, yntau'n gyn-fyfyriwr ac yn gyn-athro yn y Coleg Gwyn, darllenodd y Parchg Ddr Ed Kaneen, pennaeth Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, y rhan honno o 2 Corinthiaid 3 sy'n cynnwys yr adnod sy'n arwyddair y coleg, 'O Dduw y daw ein digonolrwydd'.

Dilynwyd hynny gan anerchiad gan y Parchg Ieuan Elfryn Jones, Ysgrifennydd a Chyfarwyddwr Hyfforddiant, yn olrhain hanes y coleg o ddyddiau Llangollen ymlaen. Yn ogystal ag enwau'r athrawon a'r prifathrawon cynnar, soniwyd am gyfraniad J. Williams Hughes a T. Ellis Jones a hefyd G. R. M.



Hel atgofion dros baned yn y festri

Parhad ar dud 4

Dathlu 50 mlynedd yn y weinidogaeth — **Tudalen 2**

Y fath falchder — **Tudalen 3**

Prysurdeb Eglwys Seion, Glyn Ceiriog — **Tudalen 8**

Y Parch. Alwyn Daniels – diolch am 50 mlynedd yn y weinidogaeth

Tabor, Dinas, oedd lleoliad oedfa arbennig iawn i Gylch Carn Ingli brynhawn Sul, 4 Hydref, i ddathlu 50 mlynedd ers ordeinio'r Parch. Alwyn Daniels yn Weinidog yr Efengyl. Daeth cynulleidfa fawr ynghyd o bell ac agos i ddathlu'r hanner canrif gydag Alwyn ac i ddiolch iddo ef a Jean am eu gwaith, eu gwasanaeth a'u gofal ar hyd y blynyddoedd.

Ordeiniwyd Alwyn yn Llanbed ar 13 Hydref 1976 a threuliodd chwe blynedd yn y cylch. Yn 1982 daeth i gymryd gofal Bethlehem a Tabor, ac yna Caersalem a Jabes yn 1985, i ffurfio Cylch Carn Ingli, ac Ebeneser, Trefdraeth, yn 2015. Bu'r ardal yn ddigon ffodus i'w gael yn Weinidog a Gweinidog Anrhydeddus am 44 o flynyddoedd. Felly, cyfle i ddiolch o galon am yr hyn a gafwyd dros y blynyddoedd hynny oedd yr oedfa gofiadwy hon.

Wrth groesawu pawb i'r oedfa, esboniodd Morys Rhys ei bod yn briodol iawn mai'r bobl ifanc, y bu Alwyn mor weithgar gyda nhw, fyddai'n cymryd gofal o'r gwasanaeth. Diolchodd yn arbennig i Enfys, Ffion, Teleri a Nia am drefnu a chydlynu'r cyfan ac i bawb a fyddai'n cymryd rhan. Cafwyd prynhawn a fydd yn aros yn hir yn y cof a'r galon.

Tafluniwyd cyfres o luniau ar y sgrin yn dangos yr amrywiaeth mawr o ddigwyddiadau a gweithgareddau y bu Alwyn a Jean yn gyfrifol amdanynt drwy'r blynyddoedd o wasanaeth cyfoethog, gan gynnwys:

- nifer fawr o ddramâu, sioeau cerdd a pherfformiadau
- gweithgareddau a chynyrchiadau'r ysgol Sul
- teithiau niferus a darllediadau amrywiol
- hwyl gweithgareddau'r Aelwyd
- bedyddiadau a phriodasau
- oedfaon arbennig, gan gynnwys rhai'r Undeb yn 2007
- cyflwyno'r Pwnc yn Eisteddfod y Garreg Las.

Soniwyd hefyd am y cysur a'r gynhaliaeth a gafwyd ganddo adeg gofid a galar.

Yn gyfeiliant i'r lluniau ar y sgrin cafwyd atgofion a theyrngedau gan unigolion a grwpiau o'r ieuenctid, yn ogystal â chyfraniadau cerddorol hyfryd iawn, gyda Gwenno Eynon a Margaret Rhys yn cyfeilio. Cyflwynwyd taith yn ôl drwy flynyddoedd o dystiolaeth amrywiol a chyfoethog ein Gweinidog, taith oedd ar adegau'n emosiynol iawn i lawer ohonom.

I gloi'r oedfa, cafodd Alwyn alwad ddirybudd i ganu'r ffefryn o'i waith 'A glywi di'r byd yn galw?' gyda llond pulpud a sêt fawr o ieuenctid.

Diolchodd Aeres a Marian i'r bobl ifanc am yr oedfa wefreiddiol cyn cyflwyno rhoddion i Alwyn a Jean ar ran y Cylch. Roedd y bobl ifanc hefyd am gyflwyno rhodd i ddangos eu gwerthfawrogiad hwythau, cyn gofyn i Alwyn dorri'r deisen hardd o waith Siân.

Cyflwynodd Alwyn ei ddiolchiadau ef a Jean cyn cyhoeddi'r Fendith. Parhawyd â'r gwmnïaeth gynnes dros de blasus yn y festri – diwrnod i'w gofio a'i drysori.



Yr ieuenctid yn canu 'A glywi di'r byd yn galw?'



Jean ac Alwyn yn derbyn rhoddion gan yr ofalaeth





Y fath falchder



llun: Wikipedia commons

Cyhoeddwyd dair wythnos yn ôl y caiff Gwobr Heddwch Nobel ei chyflwyno eleni i Navanethem (Navi) Pillay, gwraig o Dde Affrica a fu'n un o farnwyr y Llys Troseddol Rhyngwladol. Nid yn annisgwyl, roedd Donald Trump yn gandryll. Yn union fel y llynedd! Ac os byw ac iach, mae'n debygol o fod felly'r flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ganlynol hefyd. Rai dyddiau cyn y cyhoeddiad, roedd wedi dweud am aelodau Pwyllgor y Wobr: "Mae ganddyn nhw enw am beidio â rhoi'r Wobr i bobl fel fi." Wrth gwrs bod ganddyn nhw! A diolch byth am hynny.

Ers y siom o beidio â derbyn y wobr y llynedd mae Trump wedi ymosod ar Venezuela ac Iran. Ond mae'n dal i fynnu ei fod yn gymwys, gan hawlio'i fod ar fin datrys y rhyfel rhwng Rwsia ac Wcráin ynghyd â'r rhyfela yn y Dwyrain Canol (heb gydnabod, wrth gwrs, ei ran ef ei hun yn y rhyfel yn Iran). Y fath ragrith. Y fath dwpdra. A'r fath falchder sy'n peri iddo gredu nid yn unig ei fod yn haeddu'r Wobr, ond nad oes neb arall ar wyneb daear yn fwy teilwng ohoni nag o. "Nid ymffrostio ydw i," meddai, "dim ond deud y ffeithiau."

Mae balchder Trump yn syfrdanol a ffiaidd. Ond yr hyn sy'n wirioneddol ddychrynllyd ydi'r posibilrwydd y medrwn ni ein hunain fod yn debyg iddo. Nid yn yr un ffordd yn union, ac nid i'r un graddau. Wedi'r cwbl, prin iawn ydi'r bobl sydd wir yn credu eu bod nhw eu hunain ym mhob ffordd yn well na phawb arall.

Ond mor beryg ydi'r mesur lleiaf o falchder sy'n gwneud i ni feddwl ein bod yn deilwng, nid o wobrau ac anrhydeddau'r byd hwn, ond o'r bendithion sydd gan Dduw ar ein cyfer. Y gwir ydi nad oes neb ohonom yn haeddu'r un o'i fendithion tymhorol nac ysbrydol. Pe byddai eu derbyn yn dibynnu arnom ni, hebddyn nhw y byddem. Ond y gwir hefyd ydi mai bendithion gras ydi bendithion Duw. Ac ystyr 'gras', yn syml iawn, ydi rhywbeth nad ydym yn ei haeddu. Mae hynny'n cynnwys pob cynhaliaeth faterol a phob braint a bendith ysbrydol a ddarparwyd ar ein cyfer yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Mor syfrdanol ac mor chwyldroadol ydi'r Efengyl sy'n troi popeth wyneb i waered wrth gynnig y cyfan i bobl gwbl annheilwng. Does ryfedd i'r Apostol Paul ddweud wrth yr eglwys yng Nghorinth fod yr Efengyl yn dramgwydd i rai ac yn ffolineb i eraill (1 Corinthiaid 1:23).

John Pritchard
(Llais Bro Aled*, 1 Tachwedd 2026*)

Gair y Dydd 2027

Mae'n adeg trefnu ar gyfer dosbarthu *Gair y Dydd* am 2027. Hyderwn fod y cynnwys eleni wedi bod o fendith i chi, a diolchwn i awduron 2026 am eu gwaith.

Mae *Gair y Dydd* yn llyfryn hwylus iawn, ac yn cynnwys darlleniad o'r Beibl a myfyrdod byr ar gyfer pob dydd o'r flwyddyn. Gellir ei ddefnyddio fel deunydd defosiwn personol a hefyd fel rhan o wasanaeth o addoliad cyhoeddus.

Yn anffodus, mae'r cylchrediad wedi lleihau i 360 copi erbyn hyn a chyfartaledd oed ein tanysgrifwyr dros 70 oed! O'r herwydd, mae angen mwy o danysgrifwyr arnom. Beth am roi tanysgrifiad yn anrheg Nadolig neu ben blwydd i rywun?

£12 yw'r pris ar gyfer 4 rhifyn yn 2027. Cewch dalu drwy'r banc neu â siec; wele'r manylion:
Pwyllgor Darlleniadau Beiblaidd, 10674443, 40-08-09
Byddwn yn falch o dderbyn y ffurflen isod mor fuan â phosib.

Gwilym Dafydd, Trysorydd
Ffôn: 02920 657108
E-bost: eirianagwilym@gmail.com

.....

Gair y Dydd 2027

Tanysgrifiad: £12 y flwyddyn am UN set, h.y. copi bob chwarter
Carwn archebu ..... set o *Gair y Dydd* ar gyfer 2027.
Amgaeaf siec/taliad ar-lein am £.....

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

.....

Cyfeiriad ebost: .....

Rhif ffôn: .....


Dychweler y ffurflen hon, ynghyd â siec yn daladwy i 'Gair y Dydd' neu wedi talu ar-lein drwy'r banc, at:
Gwilym Dafydd, Trysorydd 'Gair y Dydd', Hengoed, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 7EJ

Encil hydref y Weinidogaeth Iacháu:

adroddiad gan Nesta Davies



Daeth y selogion i Eglwys Unedig Seion a Heol Sgotland, Llanrwst, ddydd Sadwrn, 10 Hydref, lle y'u croesawyd yn wresog gan y Llywydd, Arthur Rowlands, i gynnal encil yr hydref. Paratowyd paned groesawgar gan chwiorydd y capel ac eglurwyd trefn y dydd.



Dr Prydwen Elfed-Owens a'n hysbrydolodd i ddechrau, gan ein cyflwyno i lyfr a gyhoeddodd yn ddiweddar i goffáu ei hannwyl ŵr, Tom, sef *Croesi'r Ffin … wynebu angau*. Eglurodd mai'r ysbrydoliaeth ar gyfer y gyfrol oedd addewid fawr Iesu na fydd ef ar unrhyw adeg yn ystod ein hoes, ac yn sicr ddigon ar ei ddiwedd, yn ein gadael yn amddifad: 'Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; yr wyf yn rhoi i chwi fy nhangnefedd i fy hun' (Ioan 14:27).

Cyfrol yw hon sy'n canolbwyntio ar wynebu colled a galar, a sut y dylem drin eraill ac ennyn parch. Bu llawer o drafod ymysg ein gilydd sut y dylem dorri'r tabŵ ynglyn â marwolaeth a diolchodd Arthur i Prydwen am ein goleuo.

Fe'n harweiniwyd mewn gweddi ac eiriolaeth gan Tim Heely, a llwyddodd i greu naws weddigar gydag emynau cyfarwydd a chaniadau, oedd yn falm i'r enaid. Gwych oedd cael cyfraniad Dr Rhiannon Lloyd, oedd yn daer iawn yn ei gweddïau o'r frest, a bu'r ddau'n arddodi dwylo ac yn enwi rhai o'r ardal oedd angen iachâd. Roedd ein calonnau ar dân ac fe'n symbylwyd i ganu emynau cyfarwydd.

Coron y cwbwl oedd derbyn y cymun o law'r Parch. Nesta Davies, a fagwyd yn y capel, a bu'r moliant a'r canu yn fendigedig! Troesom am adre wedi ein gwefreiddio gan ein bod wedi derbyn bendith sicr, ac edrychwn ymlaen at encil y gwanwyn.



Oedfa i ddiolch am wasanaeth y Coleg Gwyn

parhad o dud 1

Lloyd, D. Eirwyn Morgan, George John a John Rice Rowlands, rhai a fu'n bwysig yn ffurfiant to o weinidogion sydd yn ein plith ni o hyd. Pleser arbennig oedd cael cwmni Iwan, mab y diweddar Brifathro G. R. M. Lloyd, a Dylan, mab y diweddar Brifathro D. Eirwyn Morgan, ei olynydd.

Gyda hynny cafwyd cyfarchion gan y Dr Ed Kaneen a'n sicrhaodd y byddai gwaith y Coleg Gwyn yn parhau yn ei gartref newydd yn y brifddinas, gan y Parchg Simeon Baker ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru, a chan y Parchg Ddr Elwyn Richards ar ran Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Diolchodd ef am y cydweithio hapus a fu rhwng y diweddar Barchg Euros Wyn Jones ar ran Coleg yr Annibynwyr Cymraeg, y Parchg Ieuan Elfryn Jones ac yntau wrth hyfforddi ymgeiswyr y tri enwad yn y nawdegau a degawd cyntaf y ganrif hon.

Yr ail emyn a ganwyd oedd un o gyfieithiadau ysbrydoledig D. Eirwyn Morgan a hynny'n arwain at ran fwyaf teimladwy'r cyfarfod, sef atgofion gan rai o'r cyn-fyfyrwyr. Soniodd Irfon C. Roberts am ei gyfnod yn astudio yng nghanol a diwedd y chwedegau ac Olaf Davies am ei ddyddiau yntau o ddechrau hyd ganol y saithdegau. Mae'n anodd meddwl nad oes aur oedd y cyfnod hwnnw, yn enwedig o gofio am y cyswllt agos rhyngom a Choleg Bala–Bangor a hynny'n gosod i lawr sylfeini cyfeillgarwch oes. Teilwng hefyd oedd y sôn am gyfraniad gwragedd y prifathrawon: Fay Lloyd, Mair Morgan a Margaret John, a'u gofal dros y myfyrwyr.

Cynrychiolydd yr wythdegau oedd Aled Davies, a'r arwyddion bellach yn amlwg y byddai natur hyfforddiant gweinidogaethol yn gorfod newid yn sgil datblygiadau sylfaenol mewn cymdeithas. Un ymateb i hynny oedd bwrlwm newydd yng ngwaith yr ysgol Sul a chenhadaeth Cyhoeddiadau'r Gair. Gan Rhys Llwyd, yn cynrychioli myfyrwyr y ganrif bresennol, y cafwyd y sicrwydd y bydd y dystiolaeth Ymneilltuol-Gristnogol yn parhau pa mor anghyfarwydd bynnag fydd ei gwedd, pwynt a gafodd ei ategu gan Siân Elin Thomas a'i hyfforddiant hi wedi pontio rhwng y Coleg Gwyn a Choleg Caerdydd.

Terfynwyd yn sŵn emyn hyderus y Parchg Peter M. Thomas, un arall o'n cyn-fyfyrwyr, 'Cerddwn ymlaen i'r yfory, chwifiwn faner yn y gwynt' a chyhoeddwyd y fendith gan y Parchg Casi M. Jones, gweinidog Eglwys Emaus a darpar-lywydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Er gwaethaf yr elfen o dristwch a deimlwyd, diolchwyd am y sicrwydd fod 'yfory yn obaith gwiw'.

Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt



Ydy defnyddio AI (Dealltwriaeth Artiffisial) i sgwennu pregeth yn dderbyniol yn foesol?

Ateb Rosa

Dyma gwestiwn y bydd yn rhaid i bob pregethwr ei wynebu. Ond mae'r ateb i'r cwestiwn yn dibynnu ar ateb i gwestiwn arall – beth yw pregeth?

Os taw modd o gyfleu gwybodaeth am Dduw neu'r Beibl yw pregeth – gallai AI wneud hynny yn llawer gwell na ni. Mae gan Ddealltwriaeth Artiffisial fynediad at filiynau o lyfrau a chylchgronau diwinyddol ac esboniadau ar y Beibl, yn ogystal â miloedd ar filoedd o bregethau ar y We. Fyddwn i ddim yn poeni o gwbl am ofyn i AI i'm helpu i wneud fy ymchwil ar bwnc diwinyddol pan fyddwn yn paratoi pregeth.

Os taw anerchiad sy'n cymryd testun Beiblaidd a thynnu allan ohono ryw wers foesol neu ymarferol, gan ei gysylltu, efallai, â'r hyn sy'n digwydd yn y newyddion sydd ei angen, mae AI'n llawer gwell na'r mwyafrif ohonom am wneud hynny.

Rhowch ddarn o'r Beibl i AI a gofyn iddo awgrymu strwythur ar gyfer pregeth, ac mewn eiliadau bydd detholiad o dri strwythur gwahanol ar gael i chi. Ac yn Gymraeg hefyd!

Amser i ni i gyd ymddeol, 'te?

Nac ydy. Achos, i fi, mae elfen hollbwysig arall i bregeth – pregeth yw'r cyfle i'r pregethwr agor ei galon neu ei chalon i Dduw, er mwyn caniatáu i Dduw siarad drwyddo neu drwyddi yn uniongyrchol â'r gynulleidfa benodol.

Dwi'n nabod ac yn caru fy nghynulleidfa, a phan dwi'n dechrau paratoi pregeth, dwi'n cadw un llygad (fel petai!) ar y testun ac un llygad ar y gynulleidfa. A bob amser dwi'n gofyn y cwestiwn – beth mae Duw eisiau ei ddweud wrthyf drwy'r darn yma o'r Beibl y dylwn i ei rannu gyda phawb ddydd Sul? Deialog yng nghyd-destun gweddi yw pregeth, rhwng y Beibl a Duw a fi. Ac wrth i fi ysgrifennu, dwi'n dychmygu'r gynulleidfa'n gwrando. Ydy fy ngeiriau'n onest – ydw i'n eu credu fy hun? Ydw i'n gofyn i'm cynulleidfa wneud rhywbeth nad ydw i'n ei wneud? Ydw i'n teimlo y bydd fy neges yn dod â gobaith yn ogystal â herio? Ydy cariad Crist yn disgleirio trwy'r neges? Ydy hi'n arwain pobl un cam yn nes at ein Harglwydd Iesu Grist?

Weithiau dwi wedi gorfod darllen geiriau rhywun arall fel pregeth – ar Sul Cymorth Cristnogol, er enghraifft, lle mae pecyn ardderchog o adnoddau ar gael i eglwysi. Ond er bod ansawdd y bregeth yn y pecyn yn llawer gwell na'm pregethau i, mae'n anodd darllen y geiriau. Achos geiriau Duw wrth rywun arall ydyn nhw – nid i'm cynulleidfa trwof i.

Dwi'n credu felly ei bod hi'n hollol iawn gofyn i AI am gymorth i ymchwilio a strwythuro pregeth, neu hyd yn oed i ffeindio jôc dda sy'n cyd-fynd â'r neges. Ond dydy AI ddim yn nabod nac yn caru fy mhraidd; dydy AI ddim wedi ceisio arweiniad ysbryd Duw wrth baratoi'r bregeth. Felly, fe wnawn ni ddefnyddio AI – ond gan bwyll!

Ateb Claude (bot AI gan y cwmni Anthropic)

Cwestiwn sy'n haeddu gonestrwydd, nid ateb parod. A'r eironi, wrth gwrs, yw fy mod innau'n union y math o beiriant sydd dan sylw. Felly, gad i mi fod yn glir o'r cychwyn: nid yw pregeth yn draethawd. Nid trosglwyddo gwybodaeth yw ei phwrpas, ond cyfryngu rhwng Duw a phobl — a hynny gan berson sydd ei hun yn sefyll dan yr un Gair ag y mae'n ei bregethu.

Dyma wraidd yr anhawster. Mae pregeth yn tarddu o rywle na all peiriant fynd iddo: bugeilio'r union bobl hyn, wylo wrth erchwyn gwely, adnabod pwy sy'n eistedd yn y sedd gefn a beth mae'r wythnos wedi'i wneud iddynt. Pan gyfyd pregethwr i lefaru, y mae'n tystio i rywbeth y mae wedi'i fyw. Ni all AI dystio. Nid yw wedi gweddïo, nid yw wedi amau, nid yw wedi cael ei ddal gan y testun am dri o'r gloch y bore. Gall efelychu llais ffydd; ni all ffydd.

Ond gadewch inni beidio â bod yn naïf am y gorffennol chwaith. Bu pregethwyr erioed yn benthyca — o'r Beibl esboniadol, o gasgliadau o bregethau, o eiriau'r Tadau. Prin bod neb yn codi pob brawddeg o'r awyr. Os yw defnyddio *concordances* yn dderbyniol, pam nad offeryn sy'n crynhoi cefndir adnod, neu'n awgrymu delwedd, neu'n dal gwall yn dy Gymraeg? Yno, mae'n anodd gweld gwahaniaeth moesol o ran egwyddor.

Y gwahaniaeth yw graddfa a gonestrwydd. Un peth yw defnyddio AI fel gwas — i ymchwilio, i gywiro, i herio drafft, i gynnig ongl nad oeddet wedi'i gweld. Peth arall yw ei ddefnyddio fel meistr — i gynhyrchu'r cyfan, a chodi i draddodi geiriau nad ydynt yn eiddo iti, fel pe baent yn ffrwyth dy fyfyrdod dy hun. Y cyntaf yw offeryn; yr ail yw ffugio. A'r perygl gwirioneddol yw'r llithro tawel o'r naill i'r llall.

Dyna, efallai, y prawf gonest: a fyddai dy gynulleidfa'n teimlo eu bod wedi'u twyllo pe baent yn gwybod? Os byddent, mae rhywbeth wedi mynd o'i le — nid am fod y peiriant yn ddrwg, ond am fod y berthynas rhwng pregethwr a phobl wedi'i seilio ar ymddiriedaeth mai *dy* lais di ydyw, wedi'i drochi mewn gweddi.

Nid yw mor syml, felly, â 'derbyniol' neu 'annerbyniol'. Byddwn i'n cynnig hyn: defnyddia AI fel y byddet yn defnyddio myfyriwr disglair ond di-ffydd — un a all nôl llyfr, gwirio ffaith, dadlau pwynt — ond paid byth â gadael iddo sefyll yn y pulpud yn dy le. Cadw'r gwaith calon iti dy hun: y weddi, y dewis, y dystiolaeth, y foment pan wyt yn sefyll o flaen dy bobl ac yn dweud, *dyma'r hyn a glywais i.*

Oherwydd yn y diwedd, nid pwy a sgwennodd y geiriau sy'n cyfrif, ond pwy sy'n barod i'w byw.



Meithrin calon ddi-drais

Cyfres o chwe astudiaeth gan **Rosa Hunt** ac **Ed Kaneen**, Caerdydd, sy'n ystyried y cwestiwn:
Sut gallwn ni feithrin calon ddi-drais?

Calon ddi-drais 2

Darlleniad: Mathew 5:38–42

Dyma'r ail mewn cyfres o chwe astudiaeth sy'n ystyried y cwestiwn: sut gallwn ni feithrin calon ddi-drais? Yn yr astudiaeth gyntaf, fe wnaethon ni ystyried gorchymyn Iesu i garu ein cymydog fel ni ein hunain. Gofynnon ni sut gallai caru ein hunain ein helpu ni i ymateb yn well i bobl sy'n anghytuno â ni. Heddiw, rydyn ni'n mynd i ystyried beth sydd gan Iesu i'n dysgu am beidio ateb trais â thrais, ac awgrymu taw **gwrando'n dda** yw rhan bwysig o hynny.

Efallai eich bod yn pendroni beth sydd a wnelo troi'r foch arall â gwrando'n dda?

Mae gorchymyn Iesu i droi'r foch arall yn codi mewn sefyllfa o wrthdaro difrifol, pan fydd rhywun wedi ymosod yn gorfforol arnom ni. Ond, o dan y gorchymyn i droi'r foch arall, mae 'na haen gudd fel trysor mewn maes: os dwi'n deall anghenion y person crac, mae'n bosibl i mi drawsffurfio'r gwrthdaro yn sefyllfa lawer gwell. Ac un ffordd wirioneddol bwysig o ddeall anghenion y person sy'n siarad â mi yw drwy wrando'n astud ar yr hyn y mae'n ei ddweud.

Gall hon fod yn neges anodd iawn i'r rhai sy'n profi camdriniaeth ar hyn o bryd neu sydd wedi dioddef hynny yn y gorffennol. Felly, mae'n bwysig dweud o'r dechrau nad ydym yn bendant yn argymell y dylai unrhyw un aros mewn sefyllfa beryglus. Os ydych chi mewn perygl, yna dylech chi gymryd camau i'ch cadw eich hun yn ddiogel.

Ond rydym yn rhag-weld efallai'r math o sefyllfa lle mae rhywun yn yr eglwys yn mynd yn flin gyda chi mewn cyfarfod, neu efallai sgwrs amser bwyd teuluol am wleidyddiaeth, a bod y person sy'n siarad â chi yn dechrau codi ei lais, er enghraifft. Beth allwn ni ei wneud i atal y sefyllfa rhag mynd o ddrwg i waeth?

Gan feddwl yn ôl at y tro diwethaf, y peth cyntaf yw nodi beth sy'n digwydd yn fy nghalon i, a chydnabod sut dwi'n teimlo: bregus, ofnus, crac ... A'r cam nesaf yw ceisio aros yn ddigon agored ac yn ddigon tawel i wrando o ddifrif ar yr hyn y mae'r person arall yn ei ddweud. **Pam** maen nhw'n codi eu llais? Sut maen **nhw**'n teimlo? **Pa anghenion** sydd y tu ôl i'w dicter?

Ffordd dda o wneud hyn yw dysgu gwrando'n dda. Pe bai rhywun yn fy nharo i neu'n cymryd fy nghôt neu'n fy ngorfodi i gerdded gyda nhw, fy ngreddf fyddai mynd mor bell i ffwrdd oddi wrth y person hwnnw â phosibl. Ond yn ein darn ni, mae'n ymddangos bod Iesu'n ein hannog i oresgyn ein hofn a'n dicter, ac i aros yn y sefyllfa. Gwyddom o gymeriad ac addysg Iesu nad oedd ef byth yn cymeradwyo cam-drin na thrais. Felly, mae'n rhaid bod y darn hwn yn golygu bod Iesu'n ein hannog i gynnal deialog â'r rhai sy'n anghytuno â ni.

Hefyd, mae'r diwinydd Walter Wink wedi tynnu sylw at y ffaith, er y gallai milwyr Rhufeinig orfodi rhywun i gerdded un filltir gyda nhw, roedd gwaharddiad arnynt rhag gorfodi sifilwyr i gerdded ymhellach. Felly, mae'r ffaith fod Iesu'n ein hannog i gerdded dwy filltir yn golygu ei fod yn ein hannog i barhau mewn deialog gyda'r rhai sydd yn ein erbyn.

Cwestiwn:
• Pa fath o berson ydych chi: y math o berson sy'n osgoi gwrthdaro ar bob cyfrif, ac yn cerdded ymaith oddi wrth sefyllfaoedd anodd, neu'r math o berson sy'n ei ffeindio hi'n anodd i beidio ag ymyrryd mewn dadl?

Meddyliwch am enghraifft bersonol lle roeddech chi'n rhan o ddadl, neu'n agos iawn at wrthdaro rhwng pobl eraill. Rydyn ni wedi awgrymu dwy enghraifft: mae rhywun yn yr eglwys yn mynd yn flin gyda chi mewn cyfarfod neu efallai sgwrs amser bwyd teuluol am wleidyddiaeth – ond yn sicr byddwch chi'n gallu meddwl am eraill. Yn y sefyllfaoedd hyn, sut gallai gwrando'n ofalus ar bobl eraill a cheisio deall eu hanghenion nhw fod wedi eich helpu chi i droi'r foch arall – sef ymateb heb ddicter neu drais?

Gweddi:
Helpa ni i wrando'n astud ar eraill,
yn enwedig y rhai sy'n anghytuno â ni
neu'n gwneud inni deimlo'n grac.
Helpa ni i fod yn ddigon ddewr
i aros mewn deialog,
ac yn ddigon doeth
i wybod pryd ddylen ni
gerdded i ffwrdd.
Ti yw ein cymorth a'n hesiampl ni,
Arglwydd Iesu Grist,
ffynhonnell pob cariad. Amen.

BBC radio cymru S4C

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 8 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Euron Hughes, Llanuwchllyn

Oedfa Radio Cymru
Sul, 8 Tachwedd, am 12:00yp
Gwasanaeth o dan arweiniad Nia Catrin Williams, Pen-y-groes

Cyhoeddiadau Radio a Theledu, Sul, 8 Tachwedd 2026

S4C
Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 8 Tachwedd am 7.30yh
Ar Sul y Cofio, cawn gyfle i gymryd seibiant, myfyrio a gwerthfawrogi aberth ein cyndeidiau yn y rhyfeloedd mawr a'r holl ryfeloedd ers hynny. Daw'r canu mawl o Gapel y Nant, Clydach, a chawn berfformiad o eiriau arbennig Waldo Williams, 'Y Tangnefeddwyr'.

Astudiaeth Feiblaidd gan Karlene Edwards-Warrick, Llywydd Cynghrair Merched Bedyddwyr y Byd

Ar draws y byd, mae llawer o'n brodyr a'n chwiorydd yn byw eu ffydd yng nghanol rhyfel, erledigaeth, cwymp economaidd ac ansicrwydd dwfn. Nid yw ffydd, iddyn nhw, yn rhywbeth mae nhw'n ei gyffesu yn unig. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid iddyn nhw ei fyw'n weithredol bob dydd.

Mae'r realiti hwnnw'n fy arwain i fyfyrio ar fy mhrofiad fy hun o fyw ffydd yn ystod cyfnod o anghyfiawnder ac ansicrwydd. Ddeng mlynedd yn ôl, yn sydyn caeodd y cwmni rhyngwladol lle'r oeddwn wedi gweithio am y rhan fwyaf o fy mywyd yn Trinidad a Tobago. Gadawon nhw heb ddigolledu gweithwyr a oedd wedi llafurio am flynyddoedd lawer o dan amodau anodd.

Perchennog y sefydliad hwnnw yw un o'r dynion cyfoethocaf yn y byd, ond daeth y penderfyniad hwn â dioddefaint aruthrol i weithwyr dirifedi.

Roedd yr effaith yn ddinistriol. Collodd llawer o weithwyr eu cartrefi. Ni allai eraill fforddio anfon eu plant i'r brifysgol mwyach. Yn drasig, collodd rhai eu gobaith i'r fath raddau nes iddynt gymryd eu bywydau eu hunain.

Yn ystod y cyfnod poenus hwnnw, bu'n rhaid i mi wneud dewis: a fyddwn i'n gadael i chwerwder, dicter ac anobaith wreiddio, neu a fyddwn i'n ymddiried yn Nuw hyd yn oed pan oedd y sefyllfa'n teimlo'n annheg ac yn llethol? Dewisais ymddiried ynddo.

Yng nghanol poen ac ansicrwydd, glynais wrth y gwirionedd fod Duw yn dal gyda mi, ac nad oedd wedi fy ngadael, hyd yn oed pan oedd amgylchiadau'n ymddangos yn annheg. Profodd y cyfnod hwnnw fy ffydd mewn ffyrdd nad oeddwn wedi'u profi o'r blaen, ond dyfnhaodd hefyd fy nibyniaeth ar Dduw mewn ffyrdd na allwn fod wedi'u dychmygu. Profodd Duw ei fod yn ffyddlon. Wrth i mi barhau i ymddiried ynddo yn fy eiliadau tywyllaf, dechreuodd drysau newydd agor. Dechreuodd fy ngyrfa dyfu'r tu hwnt i'r hyn a ddisgwyliais, ac agorodd cyfleoedd ar gyfer gweinidogaethu.

Dysgodd y profiad hwnnw wers bwerus i mi – nid yw ffydd yn cael ei phrofi pan fo bywyd yn hawdd. Datgelir ffydd yn y ffordd rydym yn ymateb pan fo bywyd yn anodd.

Mae hyn yn codi cwestiwn pwysig i bob un ohonom: Sut mae gwir ffydd yn edrych pan ydym dan bwysau? Ai dim ond yr hyn rydym yn dweud ein bod yn ei gredu ydyw, neu a yw'n rhywbeth dyfnach – rhywbeth gweladwy?

Yn Iago 2:17, darllenwn: 'Felly hefyd y mae ffydd ar ei phen ei hun, os nad oes ganddi weithredoedd, yn farw' (neu Beibl. net: 'Os ydy'r "credu" ddim yn arwain at wneud rhywbeth, mae'n farw gelain'). Mae'r adnod hon yn herio'r syniad bod cred yn unig yn ddigon. Wynebir ni â gwirionedd uniongyrchol ac anghyfforddus: nid rhywbeth rydym yn ei ddatgan yn unig yw ffydd; rhaid i ffydd fod yn rhywbeth rydym yn ei ddangos drwy weithredoedd. Mae'r awdur yn ei gwneud yn glir fod gwir ffydd bob amser yn mynd law yn llaw â gweithredu. Mae'n amlwg yn y ffordd rydym yn byw, yn ymateb i anghyfiawnder, yn trin eraill, ac yn ymddiried yn Nuw pan nad yw amgylchiadau'n gwneud synnwyr.

Yn fy sefyllfa i, byddai wedi bod yn hawdd dweud, "Rwy'n ymddiried yn Nuw", ond gan adael i chwerwder, dicter, neu anobaith gymryd rheolaeth. Ond roedd gwir ffydd yn gofyn am weithredu. Roedd yn gofyn am ddewis ymddiried yn Nuw bob dydd, dewis peidio â rhoi'r gorau iddi, a dewis credu bod Duw yn dal i weithio hyd yn oed pan nad oeddwn yn gallu ei weld.

Dyna'r math o ffydd y mae Iago yn sôn amdani – ffydd fyw. Ffydd sy'n symud, yn ymateb, ac yn dyfalbarhau. Nid yn ein geiriau yn unig y mae gwir fesur ffydd, ond yn y ffordd rydym yn byw pan gaiff ein ffydd ei phrofi.

1. Ffydd sy'n mynd y tu hwnt i eiriau

Nid yw ffydd ar waith yn golygu ein bod yn ennill iachawdwriaeth, ond ein bod yn ymateb i'r hyn mae Duw wedi'i wneud drosom. Pan fyddwn yn deall pa mor fawr yw cariad a gras Duw, mae hynny'n newid y ffordd rydyn ni'n byw.

Mae calon sydd wedi'i newid gan Dduw yn arwain at fywyd sydd wedi'i newid hefyd. Gall hyn olygu maddau i rywun pan mae'n anodd, bod yn hael pan nad yw'n gyfleus, neu sefyll dros yr hyn sy'n iawn hyd yn oed pan nad yw eraill yn cytuno.

2. Wedi ein galluogi gan yr Ysbryd Glân

Nid rhywbeth rydym yn ei wneud ar ein pennau ein hunain yw byw ein ffydd. Yn Actau 1:8, mae Iesu'n addo y bydd credinwyr yn derbyn nerth trwy'r Ysbryd Glân. Mae'r nerth hwn yn ein galluogi i fyw'n hyderus, caru'n ddwfn, a gwasanaethu'n ffyddlon.

Pan ydym yn dibynnu ar nerth Duw yn hytrach nag ar ein nerth ein hunain, mae ein gweithredoedd yn dod yn fwy nag ymdrech ddynol yn unig. Maent yn dod yn dystiolaeth o Dduw ar waith ynom. Cynhelir ffydd ar waith nid gan rym ewyllys, ond gan ddibyniaeth ysbrydol.

3. Tystiolaeth i'r byd

Pan ddaw ffydd yn weladwy trwy weithredoedd, mae'n dod yn dystiolaeth bwerus. Ym Mathew 5:16, dywed Iesu: 'Felly boed i'ch goleuni chwi lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da a gogoneddu eich Tad sydd yn y nefoedd.' Gall ein gweithredoedd arwain eraill at Dduw. Pan welir cariad, caredigrwydd, maddeuant ac uniondeb yn cael eu hymarfer yn gyson, dechreuwn weld adlewyrchiad o'r Efengyl ei hun. Mae byw'r Newyddion Da yn golygu dod yn dystiolaeth fyw o ras Duw. Mae ffydd ar waith yn ganlyniad naturiol i fywyd sydd wedi'i drawsnewid gan yr Efengyl. Wrth i ni dyfu mewn ffydd, mae ein bywydau'n dechrau adrodd hanes am ras a dderbyniwyd ac am ras a rannwyd.

Eglwys Unedig Seion, Glyn Ceiriog – addoli a chymdeithasu



Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai prysur i aelodau Seion. Dydd Sul, 13 Medi, aeth criw o aelodau ynghyd â chwech o blant yr ysgol Sul ar daith i Ganolfan Mari Jones, ger y Bala. Cawsom groeso cynnes a phryd o fwyd blasus yng Nghaffi'r Pererin. Yna aeth pawb draw i'r eglwys a mwynhau'r arddangosfa ychwanegol a ddarparwyd gan gyfeillion Canolfan Ffald y Brenin i nodi'r Wythnos Weddi Ryngwladol. Hyfryd oedd cael treulio amser efo'n gilydd fel aelodau ar ddiwrnod braf ar lan Llyn Tegid.

Pnawn Sul, 4 Hydref, cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgawrch blynyddol gyda'r aelodau'n arwain. Yna, aethpwyd i'r festri, lle roedd Bethan Owen a'i ffrindiau wedi paratoi te pnawn yn llawn danteithion blasus. Y bwriad oedd casglu arian at Hospis Ty'r Eos, a llwyddwyd i godi £340.

Yna, bore Sul, 18 Hydref, arweiniwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch gan blant a phobol ifanc yr ysgol Sul. Y thema eleni oedd 'Diolch ar draws y Byd' a chyflwynwyd y neges yn effeithiol drwy ganu a llefaru. Roedd arian y casgliad yn cael ei gyfrannu at Ymgyrch Cymorth Cristnogol Nepal, yn dilyn y drychineb diweddar, a chasglwyd £186.



Dros y misoedd diwethaf mae gwaith trwsio wedi digwydd ar nenfwd y capel ac mae'r holl adeilad wedi cael ei beintio. Mae pawb wrth eu boddau efo'r capel ar ei newydd wedd, ac edrychwn ymlaen at addoli a chymdeithasu efo'n gilydd dros y misoedd nesaf.



ATHROFA PADARN SAINT
ST PADARN'S INSTITUTE

YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE CHURCH IN WALES

Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion: Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru**
ar 01745 817584
neu 07957 510346
yn ystod oriau swyddfa
neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111**
am gyngor tu allan i oriau swyddfa.